Cyllid & Thollau EF

# Partneriaeth (byr)

Blwyddyn dreth 6 Ebrill 2024 i 5 Ebrill 2025 (2024–25)

**Eich enw**

**Eich Cyfeirnod Unigryw y Trethdalwr (UTR)**

Llenwch dudalen 'Partneriaeth' ar gyfer pob partneriaeth roeddech yn aelod ohoni ac ar gyfer pob busnes sy'n bartneriaeth.
I gael help wrth lenwi'r ffurflen hon, ewch i www.gov.uk/ffurflenni-a-thaflenni-hunanasesiad a darllen y nodiadau a'r taflenni cymorth.

## Manylion y bartneriaeth

1 **Cyfeirnod y bartneriaeth**

2 **Disgrifiad o fasnach neu broffesiwn y bartneriaeth**

3 **Os daethoch yn bartner ar ôl 5 Ebrill 2024, nodwch y dyddiad yr ymunoch â'r bartneriaeth** DD MM BBBB

4 **Os gwnaethoch adael y bartneriaeth ar ôl 5 Ebrill 2024 a chyn 6 Ebrill 2025, nodwch y dyddiad y gadawsoch**

**Ni ddefnyddir blwch 5**

## Eich cyfran chi o elw masnachu neu elw proffesiynol y bartneriaeth

Cyfeiriwch at y Datganiad Partneriaeth er mwyn llenwi'r tudalennau hyn ac os oes angen help arnoch, darllenwch y 'Nodiadau Partneriaeth (byr)'. Os nad yw'ch cyfnod cyfrifyddu ar gyfer y bartneriaeth rhwng 31 Mawrth a 5 Ebrill, bydd angen i chi dosrannu'ch cyfran chi o elw'r bartneriaeth o bob cyfnod cyfrifyddu i'r flwyddyn dreth – defnyddiwch flwch 9 i addasu'ch cyfran chi o elw'r bartneriaeth o'r elw neu golled y bartneriaeth (blwch 8). Os yw'r bartneriaeth yn cynnal masnach neu broffesiynau penodol, neu mewn amgylchiadau penodol, mae'n bosibl y bydd angen i chi wneud addasiadau treth pellach ym mlychau 10 a 12. Os oes gennych elw trosainnol nas trethwyd o 2023 -24, bydd angen i chi lenwi'r tudalennau 'Partneriaeth (llawn)'. Os ydych am nodi colled, neu os oes angen tynnu addasiad, rhowch arwydd minws (-) yn y blwch wrth ymyl yr arwydd £.

**Ni ddefnyddir blychau 6 a 7**

8 **Eich cyfran chi o elw neu golled y bartneriaeth** – o flwch 11 neu 12 ar y Datganiad Partneriaeth

£ .00

9 **Addasiad lle daeth cyfnod cyfrifyddu'r bartneriaeth i ben cyn 31 Mawrth 2025 neu pan fo cyfnod cyfrifyddu'r bartneriaeth yn llai na 12 mis**

£ .00

10 **Addasiad ar gyfer newid arfer cyfrifyddu** – o flwch 11A ar y Datganiad Partneriaeth

£ .00

11 **Addasiad cyfartalu** – ar gyfer ffermwyr, garddwyr masnachol a chrewyr gwaith llenyddol neu artistig yn unig

£ .00

12 **Treth dramor a hawlir fel didyniad** – dim ond os na hawlir Rhyddhad Credyd Treth Dramor ar y tudalennau 'Tramor'

£ .00

**Ni ddefnyddir blychau 13, 14 ac 15**

16 **Elw wedi'i addasu ar gyfer 2024–25** – gweler y daflen waith yn y nodiadau

£ .00

17 **Colledion a ddygwyd ymlaen o flynyddoedd cynharach a wrthbwyswyd yn erbyn elw'r flwyddyn hon (hyd at y swm ym mlwch 16)**

£ .00

18 **Elw trethadwy ar ôl dwyn colledion ymlaen (blwch 16 llai blwch 17)**

£ .00

19 **Unrhyw incwm arall y busnes heb ei gynnwys yng nghyfrifon y bartneriaeth**

£ .00

20 **Eich cyfran chi o gyfanswm yr elw trethadwy o fusnes y bartneriaeth ar gyfer 2024–25 (blwch 18 + blwch 19)**

£ .00

## Eich cyfran chi o golledion masnachu neu broffesiynol y bartneriaeth

21 **Colled wedi'i haddasu ar gyfer 2024–25** – gweler y daflen waith yn y nodiadau

£ . 0 0

22 **Colled o'r flwyddyn dreth hon a wrthbwyswyd yn erbyn incwm arall ar gyfer 2024–25**

£ . 0 0

23 **Colled i'w chario'n ôl i flynyddoedd blaenorol a'i gwrthbwyso yn erbyn incwm (neu enillion cyfalaf)**

£ . 0

24 **Cyfanswm y golled i'w chario ymlaen ar ôl gwrthbwysiadau eraill** – gan gynnwys colledion nas defnyddiwyd a ddygwyd ymlaen

£ . 0 0

## Cyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG) Dosbarth 2 a Dosbarth 4

Os yw cyfanswm eich elw o bob hunangyflogaeth a phartneriaeth ar gyfer 2024–25 yn llai na £6,725, nid oes rhaid i chi dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 2, ond efallai y byddwch am dalu yn wirfoddol (blwch 25) i ddiogelu eich hawliau i rai budd-daliadau. Darllenwch y Nodiadau Partneriaeth (byr).

25 **Rhowch 'X' yn y blwch os yw cyfanswm eich elw ar gyfer 2024–25 yn llai na £6,725 ac rydych yn dewis talu CYG Dosbarth 2 yn wirfoddol**

26 **Rhowch 'X' yn y blwch os ydych wedi eich eithrio rhag talu CYG Dosbarth 4**

27 **Addasiad i elw sy'n agored i CYG Dosbarth 4**

£ . 0 0

## Eich cyfran chi o log y bartneriaeth nas trethwyd

28 **Eich cyfran chi o log nas trethwyd** – o flwch 13 ar y Datganiad Partneriaeth

£ . 0 0

**Ni ddefnyddir blwch 29**

## Eich cyfran chi o'r didyniadau a'r dreth a dalwyd a gan y bartneriaeth

30 **Eich cyfran chi o ddidyniadau Cynllun y Diwydiant Adeiladu (CIS) a wnaed gan gontractwyr** – o flwch 24 ar y Datganiad Partneriaeth

£ . 0 0

31 **Eich cyfran chi o dreth a ddidynnwyd o incwm masnachu (nid didyniadau contractwyr)** – o flwch 24A ar y Datganiad Partneriaeth

£ . 0 0

## Unrhyw wybodaeth arall

32 **Rhowch unrhyw wybodaeth arall yn y fan hon**